



**Cymdeithas
Brodwaith
Cymru**

CYLCHLYTHYR HAF 2016

Y Cwrs Preswyl



Pawb yn gwylio Cefyn Burgess yn gweithio.

Mynychodd nifer o aelodau'r Gymdeithas y Cwrs Brodwaith blynyddol, ar 5 a 6 Mawrth ym Mhlas Tan-y -Bwlch a chael mwyniant a phleser mawr yng nghwmni Cefin Burgess. Y thema oedd 'Adeiladau' a gwyddom fod Cefyn wedi gwneud llawer iawn o waith ei hun ar y thema hon. Defnyddio addurniadydd oeddem gan gynhyrchu lluniau o'n dewis, ac roedd amrywiaeth mawr yn y dewis hwnnw!

Roedd y tiwtor yn arddangos, yn cynghori, yn canmol, yn cefnogi ac yn gwneud i bawb deimlo'n falch o'i gwaith a gweld ei hun yn llwyddo. Cawsom benwythnos difyr a'r cwmni'n hwyliog a brwdfrydig

Unwaith eto roedd croeso'r staff a bwyd y Plas yn hyfryd iawn ac felly cawsom gwrs da a phawb yn canmol. Aethom adre'n fodlon iawn.

Gair o'r Gadair

Gair gan ein Cadeirydd, Esyllt Jones

Mi fydd Eisteddfod Genedlaethol y Fenni yma whap! ac yn ôl yr arfer bydd gennym stondin yno. Dwi'n diolch ymlaen llaw i'r rhai fydd yn gosod y stondin ac i bob aelod fydd wedi cyfrannu at yr arddangosfa sydd eleni ar y thema *Atgofion*. Diolch hefyd am yr eitemau i'w gwerthu ar y stondin sydd, ynghyd â gwerthiant y tocynnau raffl, yn help mawr i gynnal y Gymdeithas ac i dalu am y stondin.

Mae'n braf hefyd eleni allu cyhoeddi fod enillydd i'n Ysgoloriaeth, sef Gwen Lloyd Thomas, o Padog, Betws y Coed. Ar hyn o bryd mae'n dilyn Cwrs BA Tecstilau yng Ngholeg Metropolitan Caerdydd. Fe welwch fwy o'i hanes ar ein gwefan sydd bellach yn weithredol, yn ddeniadol ac yn hawdd i'w llywio. Cofiwch anfon gwybodaeth am eich canghennau ac unrhyw luniau i'w rhoi ar y wefan er mwyn ei chadw'n gyfredol.

Bydd angen stiwardio'r stondin unwaith eto eleni a dyma apêl daer am wirfoddolion - efallai y buasech yn hapus i roi rhyw ddwy awr a hanner heibio un diwrnod. Mae taflen i chi nodi hynny gyda'r Cylchlythyr hwn.

Diolch i chi i gyd am eich cefnogaeth a hwyl ar y pwytho!

Esyllt

O Ardal i Ardal

Y GOGLEDD DDWYRAIN

Dyma ni yn ail ddechrau tymor y Gwanwyn yn mis Chwefror hefo diwrnod cymdeithasol a rhannu sgiliau. Diwrnod hwyliog a bendithiol a phawb wedi mwynhau cael diwrnod hamddenol.

Mis Mawrth daeth Margaret a Jen, Tregarth atom i lifo ac addurno scarff sidan. Does dim rhaid dweud, roedd yn ddiwrnod llawn hwyl a phawb wedi mynd adre hefo scarf hardd i'w wisgo.

Eirlys Savage a Bethan Pendleton gymerodd y dosbarth mis Ebrill. Gwneud clawr llyfr hardd oeddem ni gan defnyddio *Fast2Fuse*. Roedd gwaith addurno hefo peiriant a "*foils*" a gleiniau yn gwneud y clawr yn unigryw. Eto, roedd yn dda cael mynd adre hefo gwaith gorffenedig.

Edrychwn ymlaen at ein gwibdaith i Eglwys Gresford i weld arddangosfa o gwiltiau a gwaith llaw mis nesa a chloï'r tymor tan mis Medi.

MÔN AC ARFON

Dathlwyd yr Hen Galan eleni eto – y tro hwn yn y Clwb Golff, yng Nghaernarfon. Roedd pob aelod wedi gwneud anrheg fach i'w rhoi yn Sach Santa, yn ogystal â rhoi £5 y pen tuag at elusen o ddewis yr aelodau.

Penderfynwyd gwneud ymdrech i feistrolï gwahanol bwythau arbennig yn ystod y tymor – clymau Ffrengig, pwyth gorwedd a phwyth cynffonwen i wneud llun bach mewn ffram o dan arweiniad Rhiannon Parry; pwyth conyn a phwyth cadwyn i gynhyrchu Gwaith Coch o dan arweiniad Gwenfyl Jones a Joan Salesbury; a phwythau tri dimensiwn gyda Sue Williams. A chafwyd sesiwn o waith appliqué o dan arweiniad Jane Williams gan ddefnyddio peiriant neu bwythau llaw.

Aeth llond bws ar daith i'r Hen Ogledd - i Ganolfan Rheged yn benodol - yn ystod penwythnos olaf Ebrill. Roedd arddangosfa arbennig yno yn dangos sut yr effeithiodd yr amgylchedd ar batrymau a lliwiau brethyn Ynys Harris. Roeddem yn aros am ddwy noson mewn gwesty braf yng nghanol dinas Caerliwelydd, a'r bore Sadwrn aethom i Amgueddfa Tapestri'r Crynwyr yn Kendal. Croesawyd ni'n gynnes gan un o'r gwirfoddolwyr, a chyflwynodd hanes y Tapestri. Cawsom wefr arbennig o weld cerdd Waldo – *Tangnefeddwyr* wedi'i brodio ar un o'r paneli. Gan fod cynifer o'r aelodau yn ffeltio, gwau a chrosio penderfynwyd mynd i *The Wool Clip, Priest's Mill* yn Caldbeck bore Sul. Roedd yn bleser gweld gwaith pymtheg o ferched a ffurfiodd gwmni cydweithredol i gynnal y ganolfan yno ac i gynhyrchu gwaith mor gywain i'w werthu.

Bydd ein trip diwrnod ar Sadwrn cyntaf Gorffennaf - i Abakhan ac yna i Ganolfan Grefft Rhuthun i weld arddangosfa o waith yr artist tecstilau byd enwog – Pauline Burbidge.

Y trip dwy noson nesaf fydd i Nottingham ar benwythnos olaf Hydref pan fyddwn yn ymweld ag Amgueddfa *Framework Knitters* a'r Farchnad Lês. Croeso i eraill ymuno gyda ni – cysylltwch gyda rhannonp18@btinternet.com

Roeddem yn falch o lwyddiant ein haelodau - Jane Williams yn ennill ar waith llaw yn Eisteddfod Môn, a Gladys Pritchard ein hysgrifennydd gweithgar yn derbyn y fraint o fod yn un o Lywyddion Anrhydeddus Eisteddfod Genedlaethol Cymru 2017. Cyflwynwyd llun wedi'i frodio gan Rhiannon Parry yn rhodd i Gladys ar dderbyn yr anrhydedd ac fel gwerthfawrogiad o'i gwaith yn hel pawb at ei gilydd bob mis o'r flyddyn ar wahân i fis Awst.

MEIRIONNYDD

Ym mis Medi aethom ati i wneud gwahanol waith peiriant a'r aelodau wrth eu boddau yn cael arbrofi gyda'r peiriant addurniadydd. Erbyn diwedd y dydd roedd ambell ddam o waith diddorol iawn wedi'i greu a'r aelodau wedi cael hwyl ar y pwytho.

Ym mis Tachwedd, gyda'r Dolig ar y trothwy, fe wnaethom Addurniadau Nadolig gyda nifer ohonom yn dewis gwneud rhai i'w hongian ar y coed 'Dolig gan wnio gleiniau ar ddefnydd gingham. Gwaith reit ddidrafferth ond effeithiol iawn.

Fe welodd dechrau'r flwyddyn y rhan fwyaf o'r aelodau yn gweithio'n amyneddgar efo gleiniau ond roedd yn well gan eraill ddefnyddio'r amser i geisio gorffen prosiectau oedd ganddynt yn eistedd yn y cwpwrdd heb eu gorffen. (Mae'n siwr fod gennym i gyd bethau fel hyn y ein cypyrddau!)

Erbyn mis Ebrill roeddem i gyd yn ceisio dal i fyny efo gwaith heb ei offen gan anelu at gael amrywiaeth o waith i'w arddangos yn ein harddangosfa ym mis Awst, felly mae pawb wrthi'n brysur iawn yn sicrhau fod dewis da o brosiectau ar gael ar gyfer yr athlysur hwn.

Bydd Mrs Llinos Roberts yn agor yr arddangosfa am 2 o'r gloch, ddydd Sadwrn, 13 Awst lle bydd amrywiaeth o wahanol grefftau yn cael eu harddangos – ac mae'n siwr y bydd ambell eitem ar gael i'w prynu hefyd petai rhywun yn dymuno.

Dewch draw am dro, mae'n siwr o fod yn achlysur gwerth chweil i unrhyw un sy'n mwynhau gwaith llaw o unrhyw fath. Byddem yn hynod falch o'ch gweld yno.

Y CANOLBARTH

Gweithgaredd cynta'r flwyddyn oedd ffeltio gyda Beti Wyn Davies. Mae gan Beti ddiddordeb mewn llawer o wahanol grefftau ac wedi cael llwyddiant yn lleol ac yn genedlaethol. Y dasg i ni y tro hwn oedd ffeltio llun. Roedd gan bob un ohonom lun wedi'i ffeltio i fynd adre. Cawsom syniadau ganddi sut i ychwanegu brodwaith ar y llun i wneud y gwaith yn offenedig.

Mis Chwefror fe fentrodd tair ohonom - Delyth, Diana ac Eryl - i gynnal cwrs ar wneud patrymau marmor ar amrywiaeth o ddefnyddiau. Cawsom dipyn o hwyl yn 'mocha' yng nghanol paent a sebon siafio. Roedd gennym syniadau sut i ddefnyddio'r defnyddiau wedi iddynt sychu.

Yna ym mis Ebrill aethom ati i wneud tedis dan gyfarwyddyd Llinos a Mary. Erbyn hyn mae gennym lond mainc o dedis, a'r hyn sy'n rhyfeddod yw fod gan pob un ei gymeriad bach ei hun.

Daeth y tymor i ben gyda the parti mewn gwesty lleol i ddathlu penblwydd ein haelod hynaf yn naw deg oed. Mae Megan Davies wedi bod yn aelod ffyddlon o'r dechrau ac wedi bod yn drysorydd tan rhyw ddwy flynedd yn ôl. Un o'r cymeriadau hynny sy'n gweithio'n dawel yn y cefndir yw Megan ond yn gefn y gallwn ddibynnu arni bob amser. Dymunwn benblwydd hapus iawn iddi.

DWYFOR

Spwng 30c, Addurniadydd, £10 a darnau o gnu amryliw!

Pa ddefnydd wnaech chi o'r rhain tybed? Wel, hefo tiwtor fel Joyce Jones roedd y posibiladau'n ddi-bendraw. Sesiwn hwyrnos gafwyd yn ardal Dwyfor ym mis Mai, dechrau am bump, paned hanner ffordd a gorffen am naw a phawb fel plant bach ar y diwedd wedi eu plesio'n fawr hefo'r gorchestion.

Gwell cyfaddau'n fan hyn inni fod yn ddigon ffodus hefyd i gael benthgry tri pheiriant addurniadu'r Gymdeithas am y noson. Os daw'r cyfle felly, cofiwch fanteisio ar hyn gan bod y peiriannau yma'n fwy na haneru'r gwaith.

Beth gyflawnwyd felly? Wel ymhlith y campweithiau fe roddwyd bywyd newydd i dri hen sgarff digon blinedig yr olwg. Trawsnewidiwyd gorchudd clustog plaen yn orchestwaith o liw a phatrwm. Dotiodd pawb o weld fel y trodd cardigan werdd gyffredin yn siaced go unigryw o ychwanegu sgwaryn bach addurniedig o glymau lliwiau'r Hydref. Bu dwy yn fwy mentrus gan i Glenda fynd ati i ail-greu tirlun gwledig a Kathleen yn ail greu, o'i chof, hen fwthyn sydd, erbyn hyn, yn furdyn ond â fu'n gartref i'w hen nain.

Un menter na lwyddwyd i'w chwblhau'r noson honno ond â fu'n destun diddordeb mawr gydol y noson oedd prosiect Gwenan yn creu model o ddafad benddu. Mae hi wedi addo y daw â hi l'r dosbarth nesaf!

Cwrs Preswyl 2017

Mae Plas Tan-y-Bwlch wedi'i logi unwaith eto ar gyfer y Cwrs Preswyl a'r dyddiad fydd 4 - 5 Mawrth 2017. Y tiwtor fydd Hanna Roberts, sydd yn gyfarwydd i nifer ohonoch chi fel cyn enillydd Ysgoloriaeth y Gymdeithas. Y thema fydd defnyddio gwaith peiriant a/neu llaw i greu eitem ar gyfer y cartref. Neu gallwch ddod i wneud eich gwaith eich hun. Bydd mwy o fanylion ar gael yn yr Eisteddfod.

Gweithgareddau

Mae croeso i bawb ymuno â'r holl weithgareddau – ond i chi gysylltu ymlaen llaw am fanylion ac i sicrhau bod lle!

Y GOGLEDD DDWYRAIN

Cynhelir pob gweithdy yng Nghanolfan Awelon, Rhuthun o 10.00 yb. – 3.00 yp.
Mae angen rhoi enw ymlaen llaw i'r ysgrifennydd, Lis Lloyd Edwards ar 01745 815270

<u>17 Medi 2016</u>	Rholyn anghenion pwytho Gwenfyl Jones	<u>26 Tachwedd</u>	Gwneud jwg gyda Fast 2 Fuse Delyth Edwards
<u>22 Hydref</u>	Magic a mwclis – Eleri Gwau hefo wifren – Rhiannon	<u>7 Rhagfyr</u>	Cinio i Ddathlu'r Nadolig Lleoliad i'w drefnu

MÔN AC ARFON

Cynhelir y cyrsiau i gyd yn Nhan Lan, Bodorgan.
Manylion pellach gan Gladys Pritchard 01407 762090

<u>10 Medi 2016</u>	Arbrofi efo'ch peiriant gwnio Anwen Bumby	<u>3 Rhagfyr</u>	Creu blodau efo peiriant Eleri Jones
<u>1 Hydref</u>	Meddwl am y Nadolig Alison Chapman	<u>14 Ionawr</u>	Cinio Hen Galan ym Mryn Eisteddfod
<u>5 Tachwedd</u>	Clytwaith yn cynnwys brodwaith Eirlys Savage		

MEIRIONNYDD

Cynhelir pob cyfarfod yng Nghanolfan Tegid, Y Bala o 10.30 yb. – 3.30 yp.
Os am fynychu cysylltwch â Carys Williams 01490 420436 neu Mair Rees 01678 521343 - y Tiwtor

<u>16 Medi 2016</u>	Creu tirlun mewn dull brodio sanau	<u>28 Ionawr</u>	Torwaith Gwaith Richelieu
<u>12 Tachwedd</u>	Addurniadau 'Dolig	<u>22 Ebrill</u>	Gwneud Tlws /gorffen gwaith

Y CANOLBARTH

Cynhelir pob gweithgaredd yn Ysgoldy Bethlehem, Llandre o 10.00 yb. – 4.00 yp.
Manylion pellach gan Eryl Evans 01970 820778.

<u>24 Medi 2016</u>	Bagiau origami gyda Diana ac Eryl	<u>25 Chwefror</u>	Pwyth a chlonc
<u>19 Tachwedd</u>	Addurniadau Nadolig gyda Gwyneth	<u>25 Mawrth</u>	Pwythau creadigol gydag Esyllt
<u>21 Ionawr</u>	Diwrnod o wnio gyda Mair		

DWYFOR

Cynhelir pob gweithgaredd yn Neuadd yr Eglwys Cricieth o 5.00 yh. – 9.00 yh.
Croeso cynnes i bawb ac am fanylion, cysylltwch â Meinir Lloyd Jones ar 01766 770745

<u>17 Hydref 2016</u>	Cortyn a Thasel	<u>6 Chwefror</u>	I'w drefnu
-----------------------	------------------------	-------------------	-------------------

Swyddogion y Gymdeithas

Sylfaenydd:	Joyce Jones	☎ 01766 522085	E-bost: joyce@stitch.co.uk
Llywydd Cenedlaethol:	Brenda Wyn Jones	☎ 01248 600020	
Cadeirydd:	Esyllt Jones	☎ 01792 898211	E-bost: jonesesyllt@yahoo.com
Is-gadeirydd:			
Trysorydd:	Mary Williams	☎ 01766 522466	E-bost: cmw466@gmail.com
Is-drysorydd:	Buddug Roberts	☎ 01766 522497	E-bost: rhiwcriccieth@gmail.com
Ysgrifennydd:	Gwyneth Jones	☎ 01678 520813	E-bost: feidiog12@gmail.com
Is-ysgrifennydd:			
Ysg. Aelodaeth:	Gwenfyl Jones	☎ 01745 890417	E-bost: gwenfyljones@btinternet.com
Golygydd:	Margaret Griffith	☎ 01766 810513	E-bost: m.griffith901@btinternet.com

Diolch i Buddug am wirfoddoli i fod yn Is-Drysorydd ond fe sylwch fod gennym nifer o swyddi gwag o hyd. Os dymunwch gyflwyno'ch enw neu enw rhywun arall (gyda'u caniatâd) ar gyfer unrhyw swydd, cysylltwch â'r Ysgrifennydd.

Dwy Arddangosfa

Yn ystod mis Awst eleni cynhelir dwy arddangosfa brodwaith – un yn Abertawe a'r llall yn Y Bala. Wele ychydig o wybodaeth am y ddwy.

Gŵyl Bwythau Abertawe

Dyma wahoddiad i bawb i'r ŵyl hon a gynhelir o 5 Awst tan 19 Awst i ddathlu amrywiaeth lliw a cheinder pob math o bwythau. Bydd cyfle i ymweld ag o leiaf 7 arddangosfa mewn gwahanol leoliadau dros y ddinas yn ymwneud â chwiltio, brodwaith, gwau, a gwehyddu i gyd yn seiliedig ar themau storïau plant. Bydd gwaith celf stryd hefyd yn y parciau a gerddi cyhoeddus.

Ar 13 a 14 Awst bydd cyfle i fynychu sesiynau blasu, a'r rhain yn rhad ac am ddim, dan gyfarwyddyd artistiaid profiadol. Yna bydd tiwtoriaid yn cynnal gweithdai arbenigol ac mae'r rmanyion ar y wefan www.swanseafestivalofstitch.co.uk.

Dewch draw!

Arddangosfa Brodwaith

Byddwn ni, dosbarth y Bala, fel pob dosbarth arall o Gymdeithas Brodwaith Cymru yn mwynhau cyfarfod i greu. Fel y gŵyr darllenwyr y Cylchlythyr, cynigir amrywiaeth eang iawn o fathau o waith pwytho i ni ymdopi ag o yn y cyrsiau; mae'r rhestr a welir yn y calendr yn brawf o hyn. Cawn ddysgu technegau newydd a themau newydd a chael pleser dibendraw yn mwynhau'r gwmniaeth.

Dyna sut y penderfynwyd mai da o beth fyddai cael Arddangosfa o wahanol fathau o waith a threfnwyd i wneud hynny yng Nghanolfan Y Plase, Y Bala (yn y stryd tu ôl i siop y Co-op) am dair wythnos o ddydd Sadwrn 13 Awst i ddydd Gwener, 2 Medi 2016. Mae'r Ganolfan yn agored rhwng 12 o'r gloch a 5 o'r gloch ddydd Llun i ddydd Sadwrn.

Agorir yr Arddangosfa gan Llinos Roberts, Cefnmeiriadog, gwniadwraig brofiadol a mentrus iawn! Enillodd glod am lawer o waith amrywiol, a gwyddom yn y Gymdeithas am ei chefnogaeth bob amser.

Cynhelir yr agoriad swyddogol prynhawn Sadwrn 13 Awst am 2 o'r gloch yn y Ganolfan uchod. Bydd croeso cynnes yn eich aros, felly dewch yn llw.

CYSYLLTWYR Y RHANBARTHU

Môn ac Arfon

Gladys Pritchard 01407 762090
gladyspritchard@llainfain.freemove.co.uk

Y De Ddwyrain

Marian Evans 02920 843275
johnneans42@uwclub.net

Rhydaman

Megan Bevan 01267 275461
arfynigair@aol.com

Meirionnydd

Carys Willaims 01490 420436

Y Canolbarth

Eryl Evans 01970 820778
erylwe@yahoo.co.uk

Gogledd Ddwyrain

Mary Mars Lloyd 01824 790276
mary@llysybrynplus.com

Dwyfor

Meinir Lloyd Jones 01766 7707145
llwynhudol@btinternet.com

EISTEDDFOD GENEGLAETHOL Y FENNI 2016

Mae hi'n haf ac felly'n amser i ni feddwl am yr Eisteddfod Genedlaethol unwaith eto. Y Fenni fydd y lleoliad eleni a diolch ymlaen llaw i Eysyllt a Megan sydd wedi gwirfoddoli i roi'r stondin i fyny a'i thynnu i lawr. Byddant yn ei rhoi i fyny ar y Dydd Gwener, 29 Gorffennaf a bydd yn rhaid i'r cynnyrch eu cyrraedd erbyn neu eu cael i'r Ysgrifennydd, Gwyneth Jones, erbyn 22 Gorffennaf.

Fel y dywed y Cadeirydd, *Atgofion* yw'r thema eleni – testun sy'n rhoi rhychwant digon eang i ni gael arddangosfa liwgar a diddorol dros ben unwaith eto.

Cofiwch y bydd angen pethau i'w gwerthu ar y stondin. Yr hyn y gofynnir amdano yw darnau bychain o waith gydag amcan bris wedi'i nodi arno. Gobeithio'ch bod wedi cael cyfle i wneud tipyn o bethau gan fod y gwerthiant yn cyfrannu llawer tuag at gostau'r stondin.

Bydd croeso i unrhyw aelod werthu gwaith a fydd yn cael ei arddangos ar y stondin ond bydd yn rhaid rhoi pris yn glir arno, a hynny ar gefn y gwaith, nid ar y bag neu'r bocs y bydd yn dod ynddo.

Bydd angen rhoi gwybod i Eysyllt Jones neu Megan Bevan erbyn canol mis Gorffennaf eitemau sydd ar gael ar gyfer yr arddangosfa a pha bethau bychain sydd i'w gwerthu neu gallwch gysylltu â Joyce Jones, Cricieth.

Carwn atgoffa pob un sy'n rhoi gwaith i'w arddangos neu ei werthu y bydd yn rhaid iddi/iddo ddod i **nôl y gwaith brynhawn Sadwrn olaf yr Eisteddfod**. Mae hyn yn hollbwysig, gan y gall amgylchiadau ei gwneud yn anodd dod â cherbyd i'r maes ar y diwrnod olaf – a hynny'n golygu ei bod yn anodd iawn i griw bach dynnu'r arddangosfa i lawr a chario popeth oddi ar y maes.

Rhag ofn y bydd perthynas neu ffrind yn casglu'r gwaith ar eich rhan, gofynnwn yn garedig i chi sicrhau bod enw, ynghyd â chyfeiriad / cangen y perchennog, ar gefn pob darn o waith.

Rota

Fel y dywedwyd eisoes mae dwy yn barod i roi'r stondin i fyny a'i thynnu i lawr. Medrwn i gyd eu cynorthwyo drwy roi ychydig o'n hamser i weithio ar y stondin. Mae ffurflen gyda'r cylchlythyr hwn, fel arfer, i chi nodi pryd y gallwch fod yno. Cofiwch ei dychwelyd i Meinir erbyn 20 Gorffennaf, os gwelwch yn dda.

Felly, fel arfer, rydym yn gofyn yn garedig am wirfoddolwyr i weithio ar y stondin. Os oes gennych amser yn sbâr, rhowch wybod. Rydym wedi newid ychydig ar bethau eleni, gan ddechrau am 10 y bore a chael tri chyfnod stiwardio y dydd. Bydd angen 4 ar gyfer pob shift, yn ogystal â rhywun i fod yn gyfrifol am bob dydd. Felly, ar gyfer wyth diwrnod yr Eisteddfod, bydd angen 120 o wirfoddolwyr i gyd.

Gallwch ddychmygu pa mor anodd yw dod o hyd i gynifer o gynorthwywyr, ond rwy'n siwr y gallwn ddibynnu ar ein haelodau a'u cyfeillion. Mae mor bwysig dweud wrth bawb am y Gymdeithas a hyrwyddo'i gwaith - a dangos gwaith celfydd ein haelodau i'r byd! Felly, cofiwch roi eich enw i lawr os gallwch helpu ar y stondin – hyd yn oed os na allwch aros am ddim ond rhyw awr.

Raffl

Bydd tocynnau raffl ar werth am £1 yr un, gyda'r tocynnau buddugol yn cael eu tynnu brynhawn Sadwrn olaf yr eisteddfod ar stondin y Gymdeithas ar y maes. Eleni cynigir dwy wobr, sef '*Llestr Gaudi Welsh* wedi'i bwytho' ac mae Rhiannon Parri'n paratoi ail wobr. Diolch i bawb fu'n pwytho am eu gwaith. Eleni eto fe ddosbarthwyd rhai o'r tocynnau raffl yn y pwyllgor blynyddol ym mis Mai. Gobeithio fod rhai ohonoch wedi medru gwerthu rhai'n barod.

Mae'n rhaid i ni gofio mor bwysig yw i bawb, naill ai'r rhai sy'n gwirfoddoli ar y stondin neu wedi derbyn tocynnau'n barod, i fynd ati o ddifri i werthu'r tocynnau raffl. Oni bai am y raffl, ni fyddai'r Gymdeithas yn gallu fforddio talu am y stondin. A chofiwch mai unrhyw elw a wnawn sy'n ein galluogi i gynnig ysgoloriaeth i fyfyrwyr ac i'n haelodau.

Apêl

Ein apêl, felly, yw ar i gynifer â phosib ddod i gynnal gwaith y Gymdeithas yn yr Eisteddfod. Mae'n gyfle i weld llawer iawn o hen ffrindiau – a gwneud rhai newydd. Mae'n gyfle hefyd i godi swm da o arian sy'n ein galluogi i gefnogi ein prif Ŵyl ddiwylliannol. Diolch i chi ymlaen llaw – edrychwn ymlaen at eich gweld yno. A chofiwch hefyd i ddod i Gyfarfod blynyddol y Gymdeithas.

Y Cyfarfod Blynnyddol

Cynhelir y Cyfarfod Blynnyddol eleni ar fore dydd Mercher 3 Awst am 10:00 ym Mhabell y Cymdeithasau 1 am awr yn unig. Os oes mater y dymunwch ei godi yn y Cyfarfod, cysylltwch â'r Ysgrifennydd ymlaen llaw. Unwaith eto eleni rhoddwyd gwybod i bob mudiad fod yn rhaid cadw at yr amseroedd, felly bydd yn rhaid cadw at y rhaglen.

Enillydd yr Ysgoloriaeth

Gwen Lloyd Thomas enillodd Ysgoloriaeth Cymdeithas Brodwaith Cymru eleni. Merch fferm o ardal Padog, Betws-y-Coed yw Gwen. Aeth i ysgolion Ysbyty Ifan a Dyffryn Conwy ac yna ymlaen i Goleg Metropolitan Caerdydd i ddilyn cwrs gradd BA Tecstilau. Mae ar ei hail flwyddyn ac yn cael pleser mawr yn arbrofi gyda thechnegau gwahanol yn defnyddio sawl math o ffabrig ac offer. Ar hyn o bryd mae'n arbrofi gyda gwahanol fathau o brintio ar ffabrig ac yna addurno a phwythau amrywiol. Mae hi'n hoff iawn o weithio â pheiriant neu waith llaw.

Ymddiddorodd Gwen mewn gwaith pwytho er yn ifanc a bu'n llwyddiannus yn Eisteddfodau'r Urdd sawl tro. Erbyn hyn mae'n mwynhau gweithio hefo plant pan ddaw'r cyfle.

Teimlai'n ddiolchgar iawn o dderbyn yr ysgoloriaeth. "Nawr," meddai, "gallaf brynu rhannau arbennig at fy mheiriant gwnio fydd yn fy ngalluogi i arbrofi ymhellach a chael prynu ffabrigau arbennig at fy ngwaith"

Dymuniadau gorau iddi a hwyl ar y pwytho.

Aelodaeth

Y ffordd fwyaf cyfleus o dalu eich tâl aelodaeth yw trwy archeb banc, am fod yn rhaid anfon ffurflen bob blwyddyn at y rhai nad ydynt yn gwneud hynny.

Gofynnir i bob Cangen anfon enwau a thâl aelodaeth ei haelodau gyda'i gilydd i hwyluso'r gwaith gweinyddol.

Gobeithio'ch bod i gyd yn cenhadu er mwyn denu rhagor o aelodau.

Cyfeiriad e-bost

Gan ei bod mor gostus bellach i bostio, mae gallu torri i lawr ar ein costau mewn unrhyw fodd yn mynd i fod o help mawr i ni fel Cymdeithas. Un ffordd i wneud hyn fyddai cael cyfeiriad e-bost cymaint ag sy'n bosibl o'n haelodau er mwyn i ni fedru e-bostio'r cylchlythyr ac unrhyw wybodaeth arall iddynt. Felly plîs, anfonwch eich cyfeiriad e-bost i'r Ysgrifennydd Aelodaeth, sef Gwenfyl ar gwenfyljones@btinternet.com

Bwrsari ar gyfer ein haelodau

Mae'r Gymdeithas yn cynnig arian i aelodau i'w galluogi i ddilyn cwrs hyfforddiant o 1, 2 neu 3 diwrnod mewn maes brodwaith o'u dewis.

Pe byddech yn llwyddiannus, byddai disgwyl i chi gynnal nifer bychan o weithdai ar ôl cwblhau'r cwrs, er mwyn rhannu'r hyn y gwnaethoch ei ddysgu gydag aelodau eraill y Gymdeithas.

Cofiwch fod y cymorth yma'n agored i bob oed. Felly beth amdani? Os oes gennych ddiddordeb, cysylltwch â'r Ysgrifennydd.

Dyddiadau i'w Cofio

1 Mehefin: dyddiad cau ar gyfer rhifyn yr haf *Aur Winiadau*.

21 Gorffennaf: dylai pob Cangen anfon ei mantolen at y Trysorydd.

5 Awst: Cyfarfod Blynnyddol y Gymdeithas ym Mhabell y Cymdeithasau.

30 Tachwedd: dylai pob Cangen fod wedi anfon rhestr o gyfeiriadau ei haelodau at yr Ysgrifennydd Aelodaeth. Mae angen i aelodau unigol anfon eu cyfeiriadau ati hefyd.

31 Rhagfyr: dyddiad cau ar gyfer rhifyn y gaeaf o *Aur Winiadau*.

31 Ionawr: y dyddiad cau ar gyfer ceisiadau am ysgoloriaeth y gymdeithas i fyfyrwyr.

Ebrill: dyddiad a lleoliad y pwyllgor blynnyddol i'w benderfynu'n y Cyfarfod Blynnyddol. Mwy o wybodaeth yn rhifyn y gaeaf o *Aur Winiadau*.

Defnyddiau Brodio – rhatach!

Cytunodd y siopau canlynol i gynnig gostyngiad i aelodau'r Gymdeithas, dim ond ichi ddangos eich tocyn aelodaeth. Os gwyddoch chi am unrhyw siop fyddai'n fodlon bod ar y rhestr, yna byddai eich cysylltydd lleol yn falch iawn o glywed gennych. Diolch i'r rhai ohonoch sy'n gwneud yn siŵr fod y rhestr hon yn cael ei diweddarau'n gyson.

Canolfan Grefftau Tan Lan, Bodorgan, Ynys Môn.

Kit 'N Kaboodle, Adeiladau'r Banc, Breeze Hill, Benllech, Ynys Môn.

Kit 'N Kaboodle, Tŷ Menai, Ffordd Caergybi, Llanfairpwll, Ynys Môn

Silken Strands, 20 Y Rhos, Bangor (dim disgownt, ond prisiau rhesymol iawn)

Siop D.E., Y Bala

Brethyn Blaenau, 33 Stryd Fawr, Blaenau Ffestiniog



Canolbarth - Dathlu'r 90



Cloriau llyfrau lliwgar



Môn -Cyflwyniad i'r Ysgrifennydd gweithgar



Rhesaid o dedis



Gwyneth yn cyflwyno'r Ysgoloriaeth i Gwen

Golygydd y Cylchlythyr: Margaret Griffith, Dwyfach, Chwillog.
Pwllheli, Gwynedd LL53 6TF
Cyhoeddir gan Gymdeithas Brodwaith Cymru
Argraffwyd gan Hywel Evans, 27 Trewen, Dinbych LL16 3HF



Dwyfor - Y sgarffiau ar eu newydd wedd